1.1 Mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol i'r Contract hwn

| | |
|---|---|
| Swyddog a Awdurdodwyd | unrhyw gyflogai i |

1.2 Mae'r rheolau dehongli canlynol yn berthnasol i'r Contract hwn:

(a) mae person yn cynnwys person naturiol, corfforaethol neu anghorfforaethol (p'un a oes ganddo bersonoliaeth gyfreithiol ar wahân neu beidio)

(b) mae cyfeiriad at barti'n cynnwys ei olynwyr a'i benodiadau a ganiateir.

(c) mae cyfeiriad at statud neu ddarpariaeth statudol yn gyfeiriad ato fel y'i haddaswyd neu fel y'i hail-ddeddfwyd. Mae cyfeiriad at statud neu ddarpariaeth statudol yn cynnwys yr holl is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y statud hwnnw neu'r ddarpariaeth statudol honno.

(d) dehonglir unrhyw eiriau sy'n dilyn y termau yn cynnwys, cynhwysa, yn benodol, er enghraifft neu unrhyw ymadrodd tebyg fel rhai enghreifftiol ac ni fyddant yn cyfyngu ar ystyr y geiriau, y disgrifiad, yr ymadrodd neu'r term sy'n dod o flaen y termau hynny.

(e) Mae cyfeiriad at ysgrifennu neu ysgrifenedig yn cynnwys ffacs ac e-bost.

2.1 Mae'r Telerau hyn yn berthnasol i bob Archeb Prynu a osodir gan CG gydag unrhyw Gyflenwr. Mae'r Contract yn ffurfio cynnig gan CG i brynu Cyflenwadau oddi wrth y Cyflenwr yn unol â'r Telerau hyn a thelerau unrhyw Archeb Prynu neu gontract cysylltiedig. Bernir bod y Contract wedi'i dderbyn ar y cynharaf o'r canlynol pan fydd y Cyflenwr yn cyhoeddi yn ysgrifenedig y derbynnir y Contract neu unrhyw weithred gan y Cyflenwr sy'n gyson â chyflawni'r archeb. Mae Telerau hyn yn berthnasol i'r Contract gan eithrio unrhyw delerau eraill y mae'r Cyflenwr yn ceisio eu hymgorffori, neu sydd yn awgrymedig drwy fasnach, traddodiad, ymarfer neu yn ystod masnachu. Pan osodir Archeb Prynu yn erbyn contract sy'n bodoli rhwng CG a'r Cyflenwr yna os bydd anghysondeb rhwng y Telerau hynny a'r contract sy'n bodoli, bydd telerau ac amodau'r contract hwnnw yn drech na'r Telerau hyn.

2.2 Pan fo'n berthnasol, mae'n rhaid dyfynnu rhif a dyddiad yr Archeb Prynu ar bob nodyn cyngor, anfoneb a gohebiaeth yn ymwneud â'r Contract hwn. Gall methu â gwneud hynny oedi taliad.

2.3 Bydd pob un o'r Telerau hyn yn berthnasol i gyflenwi Nwyddau a Gwasanaethau a ddisgwylir pan ragnodir eu bos yn berthnasol ar gyfer y naill neu'r llall.

3.1 Bydd y Cyflenwr yn rhoi ac yn dosbarthu I CG y Cyflenwadau ar y prisiau a osodir yn y Contract. Bydd y pris yn cynnwys holl gostau a threuliau'r Cyflenwr yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol a eir iddynt yn unol â chyflawni'r Contract gan gynnwys storio, pecynnau, yswiriant, dosbarthu, gosod a chomisiynu (fel sy'n berthnasol). Ni fydd unrhyw ffioedd ychwanegol yn berthnasol oni chytunir arnynt mewn ysgrifen ac wedi'u llofnodi gan CG.

3.2 Mae'r holl symiau sy'n daladwy gan CG o dan y Contract heb gynnwys TAW. Pan wneir unrhyw gyflenwad trethadwy at bwrpasau TAW o dan y Contract, bydd CG, pan dderbynnir anfoneb TAW oddi wrth y Cyflenwr, yn talu'r cyfryw symiau ychwanegol mewn perthynas â TAW fel y'i codir ar Gyflenwadau ar yr un pryd ag y mae taliad yn ddyladwy ar gyfer y Cyflenwadau.

4.1 Mae gan CG yr hawl, cyn dosbarthu, i anfon Diwygiad i Archeb at y Cyflenwr gan ychwanegu at, gan ddileu neu gan addasu'r Nwyddau neu'r Gwasanaethau. Os bydd y Diwygiad i Archeb yn achosi newid i'r pris neu i'r dyddiad dosbarthu yna mae'n rhaid i'r Cyflenwr atal perfformio'r Contract a hysbysu CG yn ddi-oed, gan gyfrifo pris a dyddiad dosbarthu ar yr un lefel cost a phroffidioldeb â'r pris gwreiddiol. Mae'n rhaid i'r Cyflenwr ganiatáu o leiaf 10 diwrnod gwaith i CG ystyried unrhyw bris a dyddiad dosbarthu newydd. Bydd y Diwygiad i Archeb yn dod i rym dim ond os bydd Swyddog a Awdurdodwyd yn derbyn mewn ysgrifen y pris a dyddiad dosbarthu newydd o fewn yr amser y mae'r Cyflenwr yn ei nodi. Os bydd y Swyddog a Awdurdodwyd yn methu cadarnhau'r Diwygiad i'r Archeb o fewn yr amser y mae'r Cyflenwr yn ei nodi yna bydd y Contractwr yn ailgychwyn yn syth fel petai'r diwygiad i'r Archeb dan sylw heb ei gyhoeddi

bwrpas y mae CG yn rhoi gwybod amdano naill ai'n benodol neu'n awgrymol i'r Cyflenwr;

(f) darparu'r holl offer, twls a cherbydau ac unrhyw eitemau eraill sydd eu hangen i ddarparu Gwasanaethau;

(g) defnyddio'r nwyddau, y deunyddiau, y safonau a'r technegau o'r ansawdd gorau, a sicrhau y bydd yr holl nwyddau a deunyddiau a gyflenwir ac a ddefnyddir yn y Gwasanaethau neu a drosglwyddir i CG yn rhydd rhag diffygion mewn crefftwaith, gosod a dylunio;

(h) cadw pob rheol a rheoliad iechyd a diogelwch perthnasol; a

(i) cydymffurfio gyda'r holl gyfreithiau, rheoliadau, polisïau rheoleiddiol, canllawiau neu godau diwydiant perthnasol a all fod yn berthnasol i'r Gwasanaethau.

5.3 Bydd y cyflenwr yn sicrhau ar bob adeg bod ganddo, a'i fod yn eu cynnal, bob trwydded, caniatâd, awdurdodiad, a hawlen sydd ei hangen i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract.

5.4 Mae amser yn hanfodol ar gyfer pob dosbarthiad o Nwyddau ac mewn perthynas ag unrhyw ddyddiadau perfformiad a nodwyd yn y Contract am y Gwasanaethau.

5.5 Bydd y Cyflenwr yn sicrhau onid oes ei angen yn benodol o dan y Contract, na fydd unrhyw gynnwys asbestos yn y Cyflenwadau.

6.1 Cytunir yn benodol rhwng CG a'r Cyflenwr y bydd;

(a) y Cyflenwr yn unioni'n ddi-oed ar ei gost ei hun unrhyw ddiffyg yn y Nwyddau a ganfyddir gan CG wrth eu defnyddio'n briodol yn ystod y 12 mis cyntaf o ddefnydd gwirioneddol neu 18 mis ar ôl i CG eu derbyn, pa gyfnod bynnag fydd yn gorffen gyntaf. Gall y cyfryw ddiffygion ddeillio o gynlluniau diffygiol y Cyflenwr, cyfarwyddiadau camarweiniol y Cyflenwr ynglR̂n ©îu defnyddio neu ddeunyddiau annigonol neu ddiffygiol neu grefftwaith gwael neu unrhyw doriad arall o rwymedigaethau'r Cyflenwr mewn unrhyw ffordd arall boed yn y Contract hwn neu yn ôl y gyfraith;

(b) bydd nwyddau a atgyweiriwyd neu Nwyddau a ddarparwyd yn eu lle rhai eraill yn dod dan y warant uchod ond am gyfnod o 12 mis ar ôl i CG eu derbyn; a

(c) bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod darnau sbâr addas ar gael i hwyluso atgyweirio (lle bo'n berthnasol) am gyfnod o leiaf 10 mlynedd o ddyddiad dosbarthu'r Nwyddau.

7.2 Mae'n rhaid postio nodyn cyngor i'r cyfeiriad dosbarthu ar y diwrnod y caiff y nwyddau eu dosbarthu neu bydd yn mynd gyda'r dosbarthiad gan nodi rhif yr Archeb Prynu, lle y bo'n gymwys, y dyddiad dosbarthu, y sefydliad [illegible]

i CG mewn

at y Cyfarwyddwr Cyllid yn CG. Ni fydd CG yn gyfrifol am oedi cyn talu a achosir gan fethiant y Cyflenwer i gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau anfonebu hyn.

15.2 Rhaid dangos Treth Ar Werth, pan fo'n berthnasol, ar wahân ar bob anfoneb fel tâl ychwanegol net-yn-unig. Rhaid i bob anfoneb sy'n cynnwys Treth Ar Werth gydymffurfio â gofynion Tollau Tramor a Chartref EM.

15.3 Rhaid anfon pob anfoneb a datganiad cyfrif uniongyrchol i purchaseledger@coleggwent.ac.uk. Rhaid anfon datganiadau erbyn y pumed o'r mis yn dilyn y dosbarthiad fan pellaf. Fel arall, gellir eu postio i; Adran Cyllid Coleg Gwent, Campws Pont-y-pȐl, Ffordd Blaendâr, Pont-y-pȐl, NP4 5YE.

**Pŵer i Brynu pan fydd Diffygion**

16.1 Os bydd Cyflenwr yn methu dosbarthu Cyflenwadau yn unol â'r Contract neu os gwrthodwyd y Cyflenwadau ac ni roddwyd Cyflenwadau sy'n cydymffurfio â'r Contract yn eu lle, caiff CG, ar ei ddisgresiwn absoliwt ei hun, brynu'r Cyflenwadau a wrthodwyd neu na ddosbarthwyd a bydd gan CG yr hawl i adennill o'r Cyflenwr unrhyw gostau ychwanegol neu dreuliau a gafodd CG yn uwch na'r pris Contract.

17.1 Gall CG ar unrhyw adeg, heb rybudd i'r Cyflenwr, osod unrhyw atebolrwydd y Cyflenwr i CG yn erbyn unrhyw atebolrwydd CG i'r Cyflenwr p'un ai a yw'r naill atebolrwydd neu'r llall yn un presennol, a diddymwyd neu heb ei ddiddymu, a p'un a yw y naill atebolrwydd neu'r llall yn digwydd o dan y Contract.

18.1 Ni fydd y Cyflenwr yn aseinio, amnewid goblygiadau, is-gontractio, trosglwyddo neu waredu fel arall neu ymdrin â'r contract (yn gyfan neu'n rhannol) ac unrhyw un o'i hawliau a'i rwymedigaethau o dan y Contract heb g-0.005acadaucont0 uPTd()Tj 213.7 9uP 022[(s2 Tw 0

(d) unrhyw hawl

(b) bydd y Cyflenwr, ei gyflogeion, asiantau neu unrhyw is-

24.3 Bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod unrhyw berson sy'n gysylltiedig â'r Cyflenwr sy'n perfformio gwasanaethau mewn perthynas â'r Contract hwn dim ond yn gwneud hynny ar sail contract ysgrifenedig sy'n gosod ar ac yn sicrhau oddi wrth y fath berson dermau cyffelyb i'r rhai a osodwyd ar y Cyflenwr yn y cymal 26 hwn.

**<u>Hepgoriad</u>**

25.1 Ni fydd methiant neu oedi gan barti i ymarfer unrhyw hawl neu adferiad a ddarperir o dan y Contract hwn yn ffurfio hepgoriad o'r hawl neu'r adferiad hwn neu o unrhyw hawl neu adferiad arall, ac ni fydd yn atal neu'n cyfyngu ar unrhyw ymarfer arall o'r hawl neu'r adferiad hwnnw. Ni fydd unrhyw arfer sengl neu rannol o unrhyw hawl neu adferiad, a ddarperir o dan y Contract hwn yn atal neu'n cyfyngu ar ymarfer yr hawl honno nac unrhyw hawl arall eto.

---

26.1 Bydd pob hysbysiad a chyfathrebiad y mae gofyn ei anfon gan y Cyflenwr i Goleg Gwent ynglyn â'r Contract hwn yn ysgrifenedig a chaiff ei anfon drwy bost dosbarth cyntaf neu drwy y2-5a9c bost

hawliau dynol (gan gynnwys masnachu pobl a chaethwasiaeth a dod o hyd i fwynau gwrthdaro), amddiffyn yr amgylchedd, datblygu cynaliadwy, diogelu data, GDPR a llwgrwobrwyo a llygredd.

30.2 Bydd y Cyflenwr bob amser yn cydymffurfio â darpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Chynllun Iaith Gymraeg Coleg Gwent, y mae eu manylion ar gael gan Goleg Gwent ar gais.

30.3 Mae cyflenwyr sy'n darparu nwyddau neu wasanaethau i CG yn gwarantu y cynhaliwyd ymchwiliad manwl i'w harferion llafur ac i rai eu cyflenwyr uniongyrchol, er mwyn sicrhau na cheir unrhyw gaethwasiaeth neu lafur dan orfodaeth yn unman yn eu sefydliad neu trwy unrhyw gyflenwyr uniongyrchol neu is-gontractwr i'w sefydliad.

30.4 Bydd y Cyflenwr yn cadarnhau ei fod wedi rhoi ar waith yr holl brosesau, gweithdrefnau, ymchwiliadau a systemau cydymffurfio sydd eu hangen er mwyn sicrhau y bydd y sefyllfa hon yn parhau i fod yn ddilys bob amser a'i fod yn cydymffurfio'n llwyr â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015

30.5 Os bydd yn ofynnol i'r Cyflenwr, ei asiantau, ei staff neu ei isgontractwyr gyflenwi Nwyddau a/neu berfformio'r Gwasanaethau (neu unrhyw ran ohonynt) ar safle Coleg Gwent neu ynghyd â'i gyflogeion neu ei fyfyrwyr ar unrhyw safle arall, bydd y Cyflenwyr yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y fath asiantau, staff neu Isgontractwyr yn glynu at bolisi cyfle cyfartal Coleg Gwent.

30.6 NI fydd y Cyflenwyr yn gwahaniaethu, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, neu drwy wneud cam â rhywun neu ei aflonyddu, yn groes i Ddeddf C0.004 Tw 12 -0 0